**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 20fed Medi 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r aelodau am yr hynt yng nghyswllt datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. |

1. **CEFNDIR**

1.1 Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 1999 ddyletswydd Gwerth Gorau ar gyfer amryw o awdurdodau – gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr – at ddiben hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel sy'n ateb anghenion penodol.

Yn fwy penodol, mae'r ddeddfwriaeth yma yn gosod dyletswydd ar awdurdodau i wneud trefniadau i:

- sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd maent yn cyflawni eu swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- ymgynghori'n eang ar sut i wneud hynny;
- cynnal adolygiadau o'u swyddogaethau;
- llunio cynllun perfformiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

1.2 Yn 2002, cyflwynwyd Rhaglen Wella Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd hyn yn cydymffurfio â gofynion statudol y Ddeddf, ond yng nghyswllt y polisi llywodraeth leol arbennig sy'n cael ei ddatblygu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

1.3 Aeth Lloegr ati mewn ffordd wahanol, a chyflwyno Asesiadau Perfformiad Cynhwysfawr fel ei methodoleg fframwaith ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae Asesiad ar gyfer awdurdodau tân ac achub dal wrthi'n cael ei dreialu gan y Comisiwn Archwilio yn Lloegr, gyda'r bwriad o gynnal yr asesiadau go iawn cyntaf yn 2005.

2. **GWYBODAETH**

2.1 Â'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yn symud i'r Cynulliad, mae Rhaglen Wella newydd yn cael ei datblygu fydd yn darparu asesiad a fframwaith reoleiddio ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

2.2 Mae'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn datblygu Rhaglen Wella newydd ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub ochr yn ochr â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru gan y Cynulliad (sydd yn dal ar ffurf drafft).

2 **<u>GWYBODAETH</u>** *(parhad)*

2.3 Mae'r Comisiwn Archwilio yn cynnal cyfres o gyfarfodydd, a fynychir gan gynrychiolwyr o'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Cynulliad ac Uned Ddata Llywodraeth Leol, i fynd â'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Wella newydd – y Gwasanaethau Tân ac Achub, yn ei flaen.

3. **<u>ARGYMHELLIAD</u>**

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r hynt.